

# **BA: Addysg Gynradd gyda SAC**

Llawlyfr Modwl: ECGE4005P/C

Dysgu yn yr Oes Ddigidol  
Semestr 1: 2022/23

**Arweinydd y Modwl: Dave Stacey**

## Cynnwys

|                                 |                               |
|---------------------------------|-------------------------------|
| AMCAN(ION).....                 | 3                             |
| DEILLIANNAU DYSGU .....         | 3                             |
| CYNNWYS DANGOSOL .....          | 3                             |
| DYRANIAD AMSER ASTUDIO.....     | 3                             |
| ASESU .....                     | 4                             |
| AMSERLEN GWEITHGAREDDAU .....   | 4                             |
| ASESIAD 1.....                  | 6                             |
| ASESIAD 2.....                  | 1Error! Bookmark not defined. |
| MEINI PRAWF ASESU GENERIG ..... | 22                            |

## AMCAN(ION)

- Datblygu sgiliau'r myfyrwyr ar gyfer astudio annibynnol a dysgu gydol oes, a fydd yn ffurfio'r sylfeini ar gyfer cwblhau eu rhaglen radd yn llwyddiannus a chefnogi cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

## DEILLIANNAU DYSGU

### Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- Arddangos y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i fod yn ddysgwr annibynnol cydnerth ac iach.
- Ymarfer egwyddorion ystwythder dysgu.
- Defnyddio technoleg addas i gefnogi a gwella eu profiad dysgu yn y maes disgyblaeth.

## CYNNWYS DANGOSOL

- Rheoli amser, darllen, ysgrifennu, cyfeirnodu a llên-ladrad, chwilio am ffynonellau gwybodaeth a'u gwerthuso, gweithio ar-lein.
- Meddwl yn feirniadol: materion yn ymwneud â gwybodaeth, cred, ac amheuaeth.
- Ysgrifennu beirniadol: synthesis, aralleirio a chreu dadl wybodus, gan osgoi llên-ladrad.
- Myfyrio a hunan-fyfyrio.
- Hunaniaeth ac ymdeimlad o le; yn cynnwys gwerthoedd, diwylliant ac ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol, treftadaeth, amrywiaeth a chynhwysiant, ac amlieithrwydd.
- Sgiliau ar gyfer amrywiaeth o ddulliau asesu, yn cynnwys blogiau, flogiau, fideo, cyflwyniadau, perfformiadau, poster, arholiadau a gwaith cwrs ysgrifenedig.
- Sgiliau ac agweddau sy'n sail i gydnerthedd, iechyd, llesiant ac ystwythder dysgu; rôl ysbryd, meddwl, emosiynau a'r corff.
- Llythrennedd Corfforol: Ystyriaethau ynghylch rôl gweithgarwch corfforol i gefnogi iechyd corfforol, meddyliol, llesiant a chydnerthnedd.
- Llythrennedd digidol: defnyddio technoleg briodol; aros yn ddiogel ar-lein, seiberddiogelwch, hunaniaeth ddigidol.
- Gweithio mewn tîm.

## DYRANIAD AMSER ASTUDIO

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

| Math o weithgaredd      | Oriau      | Canran      |
|-------------------------|------------|-------------|
| Dysgu wedi'i amserlennu | 48         | 24%         |
| Dysgu annibynnol        | 152        | 76%         |
| Dysgu drwy leoliadau    |            |             |
| <b>CYFANSWM</b>         | <b>200</b> | <b>100%</b> |

## ASESU

### Elfen Asesu 1

(Ticiwch un)

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

| Dull asesu   | Maint                       | Pwysiad |
|--------------|-----------------------------|---------|
| E-bortffolio | Cyferwerth â 2,000 o eiriau | 50%     |

### Elfen Asesu 2

(Ticiwch un)

☐ Arholiad ysgrifenedig ☐ Gwaith cwrs ☒ Ymarferol

| Dull asesu                | Maint                                                  | Pwysiad |
|---------------------------|--------------------------------------------------------|---------|
| Fideo a Deunyddiau Ategol | Fideo unigol 3 munud sy'n ymgorffori deunyddiau ategol | 50%     |

### Crynodeb o'r Asesiad

| Math o weithgaredd    | Canran      |
|-----------------------|-------------|
| Arholiad ysgrifenedig |             |
| Gwaith cwrs           | 50%         |
| Ymarferol             | 50%         |
| <b>CYFANSWM</b>       | <b>100%</b> |

### AMSERLEN GWEITHGAREDDAU

| Dyddiad / Amser | Sesiwn                                     |
|-----------------|--------------------------------------------|
| 06/10/22        | Cyflwyniad / Cael y gorau o'ch darlithoedd |
| 24/10/22        | Cyfeirnod                                  |
| 14/11/22        | Trosolwg aseiniad                          |
| 17/11/22        | Her timau                                  |
| 01/12/22        | Creu eich fideo                            |

## MANYLEB ASESU LEFEL 4

|                                                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                             |                  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------|------------------|
| Enw'r myfyriwr:                                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | Rhif Adnabod y myfyriwr:                                    |                  |
| Rhaglen:                                                                                                                                                                                                                                  | BA Astudiaethau Addysg, BA Astudiaethau Addysg: Cynradd, BA Astudiaethau Addysg: ADY a Chynhwysiant                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |                                                             |                  |
| Modwl:                                                                                                                                                                                                                                    | Dysgu yn yr Oes Ddigidol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                             |                  |
| Cod y modwl:                                                                                                                                                                                                                              | ECGE4005P/C                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):               | 50%              |
| Darlithydd:                                                                                                                                                                                                                               | Dave Stacey                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Gwiriwr Mewnol:                                             | Catherine Morgan |
| Teitl yr Aseiniad:                                                                                                                                                                                                                        | E-bortffolio                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):                            | 2000             |
| Dyddiad cyflwyno:                                                                                                                                                                                                                         | 12/12/2022 2359                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig: | 18/01/23         |
| Dull cyflwyno:                                                                                                                                                                                                                            | <p>Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.)</p> <p><b>Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol):</b></p> <p><b>Bydd cyflwyno'r asesiad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc cosb.</b> Cosbau am gyflwyno'n hwyr: Hyd at wythnos yn hwyr, uchafswm marc o 40%. Dros wythnos yn hwyr, 0%. Y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn unig all gymeradwyo newid dyddiadau cyflwyno.</p> |                                                             |                  |
| Gonestrwydd academiaidd / cyfeirnod:                                                                                                                                                                                                      | Mae gonestrwydd academiaidd yn ofynnol. Ym mhrif ran eich cyflwyniad rhaid i chi gydnabod awduron y mae'ch gwaith wedi'i seilio ar eu hymchwil a'u syniadau. Dylech atodi rhestr gyfeiriadau i'ch cyflwyniad sy'n nodi'r llyfrau, erthyglau ac ati rydych wedi'u defnyddio, wedi cyfeirio atynt neu wedi'u dyfynnu er mwyn cwblhau'r asesiad hwn.                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                             |                  |
| <b>Deilliannau Dysgu'r Modwl (o faes llafur y modwl)</b>                                                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                             |                  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Arddangos y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i fod yn ddysgwr annibynnol cydnerth ac iach.</li> <li>Defnyddio technoleg addas i gefnogi a gwella eu profiad dysgu yn y maes disgyblaeth</li> </ul> |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                             |                  |

## DISGRIFIAD O'R DASG

Lluniwch e-bortffolio sy'n ymdrin â'r tasgau a ganlyn:

**Rhan 1** – Ail-ysgrifennwch ddarn o destun mewn iaith academiaidd briodol – 200 o eiriau

Mae'r paragraffau isod yn cynnwys llawer o wallau. Ail-ysgrifennwch y paragraff i arddangos eich dealltwriaeth o'r canlynol:

- Y defnydd o Gymraeg ffurfiol, safonol a ddisgwylir yn rhan o arddull academiaidd.
- Sillafu cywir.
- Defnydd cywir o atalnodi yn cynnwys comas, collnodau ac atalnodi llawn.
- Brawddegau a ysgrifennwyd yn dda sy'n gwneud synnwyr yn ramadegol.

*Yn Gwlad-y-la a llefydd arall fel 'na, maen nhw'n meddwl bod e'n rili pwysig i gael plant i warae mas. Mae rhai pobl wedi sgwennu papurau i'r llywodraeth sy'n dweud bod tu fas yn dda i bobl bach. Yn y canllawiau cwricwlwm, maen nhw'n neud peth mawr mas of dysgu tu allan fel peth da I neud plant meddwl yn dda ambiti'r byd naturiol, ac yn rhywle ti'n gallu neud pethau fel ymarfer corff a bywyd iachus achos dyna beth mae Norodahl and Johannesson (2013) yn dweud.*

*Mae'r pwyslais yma wedi digwydd am achau yn Gwlad-y-la am bobl bach oed 1 I chwech ac maen nhw'n warae tu mas trwy'r amser ond mae plant chwech I 16 dim ond yn gallu mynd mas gyda mêts nhw weithiau pan mae'n amser chwarae. Ni ddim yn gwybod lot am biti beth mae athrawon yn neud tu mas I helpu dysgu ond mae siŵr o fod yn mynd i fod yn wahanol dibynnu ar ba athro ti'n cael neu rywbeth. Ond mae na arwyddion yn y wlad bod athrawon yn mynd mas I chware mwy na o'n nhw arfer neud ac yn y brif dref Reyjkavick mae saith deg % o ysgols yn dweud bod nhw'n defnyddio addysg tu mas eithaf lot (Oladottir, 2008).*

Addasiad o:

*Noradahl, K. and Johannesson, I. (2014) 'Icelandic teachers' views of using the outdoors' Education 3-13: International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education. Vol 44, No. 4, September 2014, 391-406.*

**Rhan 2a** – Ail-ysgrifennwch ddarn o destun gyda dyfyniadau a chyfeiriadau priodol – 200 o eiriau

Mae'r testun isod hefyd yn cynnwys llawer o wallau, gan gynnwys defnydd anghywir o gonfensiynau cyfeirnoddi Harvard.

Ail-ysgrifennwch y paragraff a'r rhestr gyfeiriadau i arddangos eich dealltwriaeth o'r canlynol:

- Y defnydd o Gymraeg ffurfiol, safonol a ddisgwylir yn rhan o arddull academiaidd.
- Sillafu cywir.
- Defnydd cywir o atalnodi yn cynnwys comas, collnodau ac atalnoda llawn.
- Brawddegau a ysgrifennwyd yn dda sy'n gwneud synnwyr yn ramadegol.
- Defnydd gofalus, cywir o gonfensiynau cyfeirnoddi Harvard.

*Bydd y traethawd yma am bitu ysgolion coedwig. Deffiniad o ysgol coedwig sydd wedi cael ei gwneud gan Forest School Network yw 'it is an inspirational process that offers children, young people and adults regular opportunities to achieve and develop confidence and self esteem through hands on learning experiences in a woodland environment'. Murray and O'Brien 2006. Mae pobl yn becho tamaid bach am bitu pobl fach yn ysgol sydd ddim yn cael mynd mas i fforest neu lefydd gwyrdd fel rhieni nhw achos bod gyd o rieni nhw yn meddwl bydd rhywbeth drwg yn digwydd ac mae lot maen nhwn gallu neud tu mewn dyddiau yma a dyna beth mae O'Brien a Murray yn meddwl. Mae lot o ymchwil yn dweud os nage nhw'n mynd pan mae nhwn bach byddant nhw ddim yn mynd pan maen nhw wedi tyfu lan a byddwn ni'n misso mas ar fanteision corfforol ac emosiynol o fod yn natur. Ward Thompson and Aspinall and Bell and others 2004. Achos bod dysgu tu mas yn rili wahanol i ddysgu mewn awyrgylch dosbarth mae llywodraeth cymru yn annog athrawon I neud ysgol coedwig yn ysgolion ei hunain, enwedig cyfnod sylfaen.*

*Rhestr Cyfeirnoddi:*

*welsh assembly government. Outdoor Learning Handbook. Cardiff: 2009. WAG. Ward Thompson, C., Aspinall, P., Bell, S., Findlay, C., Wherrett, J. and Travlou, P. Open space and social inclusion: Local woodland use in central Scotland. Report to the Forestry Commission, Edinburgh, 2004. .*

*2006. E. O'Brien and R. Murray, A marvellous opportunity for children to learn: A participatory evaluation of Forest School in England and Wales, Farnham: Forest Research.*

**Rhan 2b** – Atebwch bum cwestiwn ar gyfeirnod academaidd – 600 o eiriau

Atebwch yr holl gwestiynau isod mor gyflawn â phosibl.

1. Os byddwch yn methu cydnabod ffynhonnell eich gwybodaeth mewn ysgrifennu academaidd, gallech gael eich cyhuddo o \_\_\_\_\_ ? Pam mae hi'n bwysig bod myfyrwyr yn osgoi hyn?
2. Dim ond pan fyddwch yn defnyddio dyfyniad uniongyrchol y mae'n rhaid i chi gyfeirnod. Ydy hyn yn Gywir neu'n Anghywir? Eglurwch eich ateb.
3. Mae Wikipedia yn lle da i chwilio am wybodaeth ar gyfer eich aseiniadau academaidd. Esboniwch, gyda rhesymau a llenyddiaeth gefnogol, a ydych yn credu bod y datganiad hwn yn gywir neu'n anghywir.
4. Lluniwch set o gyfarwyddiadau y gellid ei chynnwys mewn canllaw cyfeirnod sy'n esbonio sut i gyflwyno dyfyniad hir iawn.
5. Esboniwch sut gallwch ddechrau gwneud ymchwil ar gyfer aseiniad academaidd. Nodwch bum ffynhonnell a fyddai'n dderbyniol ar gyfer astudiaeth academaidd.

Sicrhewch eich bod yn ysgrifennu mewn Cymraeg academaidd ac yn cynnwys cyfeiriadau i gefnogi eich atebion. Defnyddiwch y blog y gwnaethoch ei greu yn ystod yr wythnos gynefino i gyflwyno eich atebion i'r cwestiynau hyn. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cynnwys y ddolen i'ch blog yn nogfen eich portffolio.

### **Rhan 3 – Ysgrifennwch ymateb beirniadol i erthygl academaidd – 1000 o eiriau**

Defnyddiwch yr erthygl cyfnodolyn yn Moodle sydd â'r teitl - Gwersi o'r Gorllewin (Gweler adnoddau'r aseiniad)

Ysgrifennwch ymateb beirniadol i erthygl.

Trefnu eich ymateb beirniadol:

- Dechreuwch drwy gyflwyno eich erthygl yn fyr.
  - Cynhwyswch ychydig o frawddegau agoriadol sy'n dynodi'r awdur(on) a'r teitl, ac esboniwch yn gryno bwnc y testun.
  - Allwch chi ddynodi nod y testun?
- Crynhowch yr erthygl.
  - Beth yw'r prif ganfyddiad neu'r ddadl allweddol sy'n cael ei ddefnyddio gan yr awdur?
  - Yn eich barn chi beth yw diben/bwriad yr awdur drwy'r testun?

(Awgrym – mae'n bosibl na fydd hyn yn amlwg bob tro, ac efallai bydd angen i chi 'ddarllen rhwng y llinellau'. Os felly, gallai nifer (cyfyngedig) o enghreifftiau helpu i enghreifftio eich pwyntiau).

- Rhowch sylwadau ar strwythur yr erthygl. Meddyliwch am y modd y trefnwyd y testun, oherwydd mae'n bosibl bod hyn wedi'i wneud mewn modd bwriadol i helpu'r darlennydd i roi trefn ar ei feddyliau, neu hyd yn oed i'n perswadio ni. Ystyriwch:
  - y defnydd o baragraffau
  - hyd paragraffau
  - geiriau cysylltiol rhwng paragraffau
  - y defnydd o ystadegau / rhifau o fewn erthygl
  - y defnydd o atodiadau.
- Rhowch sylwadau ar iaith yr erthygl. Dylech feddwl ynghylch a ydy'r arddull ysgrifennu'n gweddu i'r gynulleidfa arfaethedig (e.e. arbenigwyr/nid arbenigwyr, academaidd ac ati). Archwiliwch:
  - yr arddull a ddefnyddir – ffurfiol, anffurfiol
  - hawdd ei darllen, anodd ei darllen
  - cywirdeb
  - y defnydd o iaith er perswâd
  - y defnydd o iaith wrthrychol
  - y defnydd o iaith oddrychol.
- Rhowch sylwadau ar y dystiolaeth a'r rhesymu o fewn yr erthygl. Gallech chi ddefnyddio'r cwestiynau hyn i'ch helpu i ystyried yr agwedd hon:
  - Oes problem, datganiad neu hypothesis eglur?

- Pa honiadau sy'n cael eu gwneud?
  - Ydy'r ddadl yn gyson?
  - Ar ba fathau o dystiolaeth y mae'r testun yn dibynnu?
  - Pa mor ddilys a dibynadwy y mae'r dystiolaeth?
  - Pa mor effeithiol y mae'r dystiolaeth wrth gefnogi'r ddadl?
  - I ba gasgliadau y daw'r awdur? Oes modd cyfiawnhau'r casgliadau hyn?
- Ysgrifennwch gasgliad ynghylch yr erthygl. Fel arfer mae hwn yn baragraff eithaf byr.
    - Ail-ddatganwch eich barn gyffredinol am y testun.
    - Cyflwynwch argymhellion yn gryno.
    - Os oes angen gellir cynnwys disgrifiad neu esboniad pellach o'ch barn. Gall hyn helpu i'ch beirniadaeth swnio'n deg ac yn rhesymol.
    - Yn gyffredinol, a ydy'n erthygl academiaidd briodol?
  - Ysgrifennwch restr gyfeiriadau a luniwyd yn gywir. Dylech gynnwys yr erthygl ei hun yn y rhestr gyfeiriadau yn ogystal ag unrhyw waith darllen arall y gallech fod wedi'i wneud i'ch helpu i ymateb i'r dasg.

# CANLLAWIAU I FYFYRWYR WRTH GWBLHAU TASGAU

**SYLWER:** Mae'r canllawiau a nodir isod yn gysylltiedig â'r pum maen prawf asesu generig drosodd.

## 1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth

Mae'n rhaid i'ch gwaith gael ei lywio a'i gefnogi gan ddeunydd ysgolheigaidd sy'n *berthnasol* i'r dasg/tasgau a osodwyd ac sy'n *canolbwyntio* arni/arnynt. Dylech ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cael mynediad at *ystod* briodol o ffynonellau, a allai fod yn academiaidd, yn llywodraethol a diwydiannol; gall y ffynonellau hyn gynnwys erthyglau cyfnodolion academiaidd, gwerslyfrau, erthyglau newyddion cyfredol, dogfennau sefydliadol a gwefannau. Dylech ystyried *hygrededd* eich ffynonellau; fel arfer mae cyfnodolion academiaidd yn ffynonellau credadwy iawn, ond mae'n rhaid ystyried/dethol gwefannau'n ofalus iawn a dylid eu defnyddio'n gynnwl. Dylai unrhyw ffynhonnell a ddefnyddiwyd fod yn gyfredol, a'r rhan fwyaf wedi'u cyhoeddi o fewn y pum mlynedd diwethaf, er y gall darnau arloesol/pwysig o waith yn y maes fod yn hŷn. Rhaid i chi ddarparu *tystiolaeth* o'ch ymchwil/gwaith darllen eich hun trwy gydol eich gwaith, gan ddefnyddio system gyfeirnod addas, yn cynnwys cyfeiriadau yn y testun ym mhrif ran eich gwaith a rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.

**Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:** *Dyfernir marciau yn yr adran hon am eich ymgysylltiad ag ystod eang o lenyddiaeth briodol o erthyglau cyfnodolion, llyfrau a gwefannau dibynadwy sy'n ymwneud â datblygu sgiliau sylfaenol ar gyfer astudio a chyflogaeth yn y dyfodol. Cofiwch ddefnyddio cyfeirnod i'r ddull Harvard. Dylid cynnwys cyfeiriadau priodol yn y testun yn eich portffolio, a dylech hefyd gyflwyno eich rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.*

## 2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Ar lefel 4, dylech allu arddangos gwybodaeth am y cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sy'n gysylltiedig â'ch maes/meysydd astudio. Mae *gwybodaeth* yn ymwneud â'r ffeithiau, y wybodaeth a'r sgiliau rydych wedi'u caffael trwy eich dysgu. Rydych yn arddangos eich *dealltwriaeth* trwy ddehongli ystyr y ffeithiau a'r wybodaeth. Golyga hyn fod arnoch angen dethol a chynnwys yn eich gwaith y cysyniadau, y technegau, y modelau, a'r theorïau ac ati sy'n briodol i'r dasg/tasgau a osodwyd. Dylech allu esbonio'r theorïau, y cysyniadau, ac ati i ddangos eich dealltwriaeth. Hefyd bydd eich marc/gradd yn amodol ar y *graddau* rydych yn arddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth.

**Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:** *Dyfernir marciau yn yr adran hon am eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o egwyddorion allweddol cyfeirnod i'r ymateb yn feirniadol i erthygl.*

## 3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol

Dylech allu cyflwyno, gwerthuso a dehongli data ansoddol a meintiol, er mwyn datblygu llinynnau dadl a ffurfio barn gadarn yn unol â theorïau a chysyniadau sylfaenol eich pwnc/pynciau astudio. Dylech allu gwerthuso addasrwydd gwahanol ddulliau a ddatrys problemau sy'n gysylltiedig â'ch maes/meysydd astudio a/neu waith. Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o feddwl rhesymegol, dadansoddol. Er enghraifft, archwilio a thorri gwybodaeth i lawr yn elfennau, gwneud casgliadau, casglu, cymharu a chyferbynnu gwybodaeth. Ystyr hyn yw nid disgrifio 'beth' yn unig! Ond hefyd cyfiawnhau: Pam? Sut? Pryd? Pwy? Ble? Ar ba gost? Dylech roi cyfiawnhad dros eich dadleuon a'ch barn gan ddefnyddio tystiolaeth eich bod wedi myfyrio ar syniadau pobl eraill o fewn y maes pwnc a'ch bod yn gallu llunio barn a dadleuon cadarn gan ddefnyddio data a chysyniadau. Lle bo'n berthnasol, gellir cynnig atebion ac argymhellion amgen.

**Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:** *Dyfernir marciau yn yr adran hon am werthuso'r cysyniadau sylfaenol sy'n cael eu trafod ac am gyflwyno dadleuon ar sail tystiolaeth yn eich atebion i'r cwestiynau ynghylch cyfeirnod.*

#### 4. Sgiliau Ymarferol

Ar lefel 4, dylech allu cymhwyso'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol er mwyn eu gwerthuso a'u dehongli yng nghyd-destun eich maes astudio. Dylech allu dangos sut y mae'r cysyniadau a'r syniadau sy'n gysylltiedig â'r pwnc yn berthnasol i sefyllfaoedd yn y byd go iawn a/neu mewn cyd-destun penodol. Sut maent yn gweithio'n ymarferol? Byddwch yn defnyddio modelau, dulliau, technegau a/neu theorïau, yn y cyd-destun hwnnw, i asesu sefyllfaoedd presennol, efallai er mwyn llunio cynlluniau neu atebion i ddatrys problemau, neu i greu arteffactau. Mae hyn yn debygol o gynnwys, er enghraifft, defnyddio arteffactau, enghreifftiau ac achosion o'r byd go iawn, cymhwyso model o fewn sefydliad a/neu feincnodi un theori neu sefydliad yn erbyn rhai eraill yn seiliedig ar feini prawf penodedig.

**Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:** *Dyfernir marciau yn yr adran hon am eich gallu i gyflwyno eich gwaith yn gywir mewn arddull academiaidd briodol. Yn enwedig drwy gymhwyso mewn modd priodol atebion i'r problemau a gyflwynir yn rhannau 1 a 2a.*

#### 5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol

Rhaid i'ch gwaith roi tystiolaeth o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer peth cyfrifoldeb personol. Mae hyn yn cynnwys dangos: eich bod yn gallu cyfleu canlyniadau'ch astudiaeth/gwaith yn gywir ac yn ddibynadwy, gyda dadleuon strwythuredig a chydlynol; eich bod yn gallu cychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, boed hynny'n unigol a/neu'n gydweithredol; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn. Dylai'r gwaith fod yn gydlynol ac wedi'i strwythuro'n dda o ran ei gyflwyniad a'i drefn.

**Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:** *Dyfernir marciau yn yr adran hon am gyflwyniad cyffredinol eich portffolio. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn mynd ati i brawf-ddarllen eich gwaith a'ch bod wedi defnyddio canllawiau'r Brifysgol ynghylch cyflwyniad ar bob adeg.*

#### E-bortffolio

- Wedi'i ysgrifennu yn y Gymraeg gydag arddull fusnes/academaidd briodol gan ddefnyddio cyfrwng priodol ar gyfer y dasg. Cyfeiriwch at adnoddau Moodle ychwanegol i gael cyfarwyddyd ynghylch llunio mapiau meddwl a phosteri.
- Canolbwyntiwch ar y tasgau a osodwyd yn yr aseiniad yn unig.
- Hyd: 2000 o eiriau (neu'r cyfwerth) +/- 10% (tynnir 5 marc o'r marc terfynol os bydd mwy o eiriau na'r hyn a ganiateir).
- Defnyddiwch 'Cysill' i wirio'r sillafu a'r gramadeg cyn cyflwyno'r aseiniad.

#### Adnoddau Hanfodol:

- Adnoddau a restrir ar Moodle
- Y Llawlyfr modwl a rhestr ddarllen
- Canllaw cyfeirnod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Y meini prawf asesu isod

# FFURFLEN ADBORTH MYFYRWYR

Noda'r adran hon y *graddau* y mae'r meini prawf asesu yn cael eu harddangos gennych chi, sydd yn ei dro'n pennu'ch marc. Dangosir y marciau sydd ar gael ar gyfer pob categori sgiliau. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

| Meini Prawf Asesu Generig                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Marciau sydd ar gael | Marciau a ddylfarn |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|--------------------|
| 1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | 15                   |                    |
| <i>Dyfernir marciau yn yr adran hon am eich ymgysylltiad ag ystod eang o lenyddiaeth briodol o erthyglau cyfnodolion, llyfrau a gwefannau dibynadwy sy'n ymwneud â datblygu sgiliau sylfaenol ar gyfer astudio a chyflogaeth yn y dyfodol. Cofiwch ddefnyddio cyfeirnod i ar ddull Harvard. Dylid cynnwys cyfeiriadau priodol yn y testun yn eich portffolio, a dylech hefyd gyflwyno eich rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.</i> |                      |                    |
| 2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | 20                   |                    |
| <i>Dyfernir marciau yn yr adran hon am eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o egwyddorion allweddol cyfeirnod i ac ymateb yn feirniadol i erthygl.</i>                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                      |                    |
| 3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | 15                   |                    |
| <i>Dyfernir marciau yn yr adran hon am werthuso'r cysyniadau sylfaenol sy'n cael eu trafod ac am gyflwyno dadleuon ar sail tystiolaeth yn eich atebion i'r cwestiynau ynghylch cyfeirnod.</i>                                                                                                                                                                                                                                             |                      |                    |
| 4. Sgiliau Cymhwyso Ymarferol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | 25                   |                    |
| <i>Dyfernir marciau yn yr adran hon am eich gallu i gyflwyno eich gwaith yn gywir mewn arddull academaidd briodol. Yn enwedig drwy gymhwyso mewn modd priodol atebion i'r problemau a gyflwynir yn rhannau 1 a 2a.</i>                                                                                                                                                                                                                    |                      |                    |
| 5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | 25                   |                    |
| <i>Dyfernir marciau yn yr adran hon am gyflwyniad cyffredinol eich portffolio. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn mynd ati i brawf-ddarllen eich gwaith a'ch bod wedi defnyddio canllawiau'r Brifysgol ynghylch cyflwyniad ar bob adeg.</i>                                                                                                                                                                                             |                      |                    |

|                                                                                                                                                                                                      |                                                            |  |          |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|--|----------|
| <b>Marc Asesiad</b> (Mae marciau asesiadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r marciau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.) | <b>Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (ticiwch os yw'n berthnasol)</b> |  | <b>%</b> |
|                                                                                                                                                                                                      | Hyd at wythnos yn hwyr (uchafswm o 40%)                    |  |          |
|                                                                                                                                                                                                      | Dros wythnos yn hwyr (0%)                                  |  |          |

## MANYLEB ASESU LEFEL 4

|                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                             |                          |
|--------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------|--------------------------|
| Enw'r myfyriwr:                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | Rhif Adnabod y myfyriwr:                                    |                          |
| Rhaglen:                             | BA Astudiaethau Addysg, BA Astudiaethau Addysg: Cynradd, BA Astudiaethau Addysg: ADY a Chynhwysiant                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |                                                             |                          |
| Modwl:                               | Dysgu yn yr Oes Ddigidol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                             |                          |
| Cod y modwl:                         | ECGE4005P/C                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):               | 50%                      |
| Darlithydd:                          | Dave Stacey                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Gwiriwr Mewnol:                                             | Catherine Morgan         |
| Teitl yr Aseiniad:                   | Fideo a deunyddiau ategol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):                            | 1500 o eiriau (cyfwerth) |
| Dyddiad cyflwyno:                    | 12/12/22                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig: | 18/01/23                 |
| Dull cyflwyno:                       | <p>Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.)</p> <p><b>Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol):</b></p> <p><b>Bydd cyflwyno'r asesiad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc cosb.</b> Cosbau am gyflwyno'n hwyr: Hyd at wythnos yn hwyr, uchafswm marc o 40%. Dros wythnos yn hwyr, 0%. Y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn unig all gymeradwyo newid dyddiadau cyflwyno.</p> |                                                             |                          |
| Gonestrwydd academiaidd / cyfeirnod: | <p>Mae gonestrwydd academiaidd yn ofynnol. Ym mhrif ran eich cyflwyniad rhaid i chi gydnabod awduron y mae'ch gwaith wedi'i seilio ar eu hymchwil a'u syniadau. Dylech atodi rhestr gyfeiriadau i'ch cyflwyniad sy'n nodi'r llyfrau, erthyglau ac ati rydych wedi'u defnyddio, wedi cyfeirio atynt neu wedi'u dyfynnu er mwyn cwblhau'r asesiad hwn.</p>                                                                                                                                                                                                                                               |                                                             |                          |

### Deilliannau Dysgu'r Modwl (o faes llafur y modwl)

- Arddangos y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i fod yn ddysgwr annibynnol cydnerth ac iach.
- Ymarfer egwyddorion ystwythder dysgu.
- Defnyddio technoleg addas i gefnogi a gwella eu profiad dysgu yn y maes disgyblaeth.

## DISGRIFIAD O'R DASG

Cynllunio a datblygu cyflwyniad fideo tri munud o hyd gyda'r paramedrau canlynol:

- Dewiswch ddau (2) sgil sydd yn eich barn chi y rhai pwysicaf ar gyfer eich astudiaethau yn y dyfodol.
  - Efallai yr hoffech ystyried y canlynol:
    - Cyfeirnod.
    - Aralleirio.
    - Rheoli amser.
    - Meddwl yn feirniadol.
    - Adfyfrio.
    - Llythrennedd Digidol.
    - Unrhyw un o'r sgiliau astudio eraill rydym wedi eu trafod yn y modwl hwn.
  - Trafodwch pam bod y sgiliau hyn yn bwysig ar gyfer prifysgol.
  - Cynhwyswch bwyntiau gweithredu ar gyfer datblygiad personol pellach yn y sgiliau astudio hyn.
    - Dylai eich pwyntiau gweithredu ddilyn egwyddorion CAMPUS.

Dylech strwythuro eich fideo fel a ganlyn:

- Cyflwyniad – Dywedwch wrth eich gwyliwr beth rydych yn mynd i'w ddweud wrtho/wrthi.
  - Dylech gynnwys:
    - Y sgiliau astudio rydych yn mynd i'w trafod
    - Pam mae'r rhain yn bwysig yn eich barn chi
- Prif gorff – Dywedwch wrth y gwyliwr beth rydych yn ei drafod
  - Dylech gynnwys:
    - Beth yw'r ddau sgil astudio o'ch dewis.
    - Pwy sy'n dweud bod y rhain yn bwysig.
    - Sut bydd y sgiliau hyn yn gwella neu'n cefnogi eich gwaith academiaidd yn y dyfodol.
- Casgliad – Dywedwch wrth eich gwyliwr beth rydych wedi'i ddweud wrtho/wrthi
  - Dylech gynnwys:
    - Crynodeb o'r prif gorff
- Cynllun Gweithredu – Sut rydych yn mynd i ddatblygu'r sgiliau hyn

Rhaid i'ch fideo gynnwys:

- Eitemau gweledol sy'n berthnasol i'r sgiliau astudio rydych yn eu trafod.
- Ffynonellau cyfeiriol academiaidd perthnasol i gefnogi eich trafodaeth.
- Rhestr gyfeiriadau wedi'i fformatio'n gywir.

Efallai yr hoffech ddefnyddio un o'r canlynol ar gyfer eich eitemau gweledol

- Cyflwyniad PowerPoint

- MS Sway
- Poster Academaidd
- CDP

#### **Canllawiau Cyffredinol:**

- Cyflwyniad unigol yw hwn – ymarferwch eich amserau'n ofalus! Ystyriwch eich defnydd o iaith y corff: uchder y llais, cyflymder a thraw y llais; cyswllt llygad â'r gynulleidfa.
- Gallwch ddefnyddio 'cardiau promptio' neu nodiadau cryno maint cerdyn post i gefnogi'ch cyflwyniad. Peidiwch â defnyddio sgriptiau hir na darllen o'r sgrin.
- Peidiwch ag anghofio mai tasg academiaidd yw hon yn bennaf oll. Dylech gyfeirnodu pob syniad yn gyflawn yn yr un modd yn union ag aseiniad ysgrifenedig. Defnyddiwch gyfeirnodu Harvard ar eich poster (gyda rhestr ar y sleid olaf) a chydabod ffynonellau ar lafar.
- Gwnewch yn siŵr fod eich ymateb yn ffurfio dadl gydlynol yn gyffredinol.

#### **Cyflwyno gwaith**

Dylid cyflwyno eich eitemau gweledol ategol a dolen i'ch fideo i Turnitin ac fe ddylech gynnwys tudalen flaen a rhestr o gyfeiriadau. RHAID i chi sicrhau bod eich fideo yn gallu cael ei wyllo gan eich darlithydd a'r gwiriwr mewnol.

# CANLLAWIAU I FYFYRWYR WRTH GWBLHAU TASGAU

**SYLWER:** Mae'r canllawiau a nodir isod yn gysylltiedig â'r pum maen prawf asesu generig drosodd.

## 6. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth

Mae'n rhaid i'ch gwaith gael ei lywio a'i gefnogi gan ddeunydd ysgolheigaidd sy'n *berthnasol* i'r dasg/tasgau a osodwyd ac sy'n *canolbwyntio* arni/arnynt. Dylech ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cael mynediad at *ystod* briodol o ffynonellau, a allai fod yn academiaidd, yn llywodraethol a diwydiannol; gall y ffynonellau hyn gynnwys erthyglau cyfnodolion academiaidd, gwerslyfrau, erthyglau newyddion cyfredol, dogfennau sefydliadol a gwefannau. Dylech ystyried *hygrededd* eich ffynonellau; fel arfer mae cyfnodolion academiaidd yn ffynonellau credadwy iawn, ond mae'n rhaid ystyried/dethol gwefannau'n ofalus iawn a dylid eu defnyddio'n gynnwl. Dylai unrhyw ffynhonnell a ddefnyddiwyd fod yn gyfredol, a'r rhan fwyaf wedi'u cyhoeddi o fewn y pum mlynedd diwethaf, er y gall darnau arloesol/pwysig o waith yn y maes fod yn hŷn. Rhaid i chi ddarparu *tystiolaeth* o'ch ymchwil/gwaith darllen eich hun trwy gydol eich gwaith, gan ddefnyddio system gyfeirnod addas, yn cynnwys cyfeiriadau yn y testun ym mhrif ran eich gwaith a rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.

**Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:** *Dyfernir marciau yn yr adran hon am eich ymgysylltiad ag ystod eang o lenyddiaeth briodol o erthyglau cyfnodolion, llyfrau a gwefannau dibynadwy sy'n ymwneud â datblygu sgiliau sylfaenol ar gyfer astudio a chyflogaeth yn y dyfodol. Cofiwch ddefnyddio cyfeirnod i'r ddull Harvard. Dylid cynnwys cyfeiriadau priodol yn y testun yn eich eitemau gweledol ategol, a dylech hefyd gyflwyno eich rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.*

## 7. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Ar lefel 4, dylech allu arddangos gwybodaeth am y cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sy'n gysylltiedig â'ch maes/meysydd astudio. Mae *gwybodaeth* yn ymwneud â'r ffeithiau, y wybodaeth a'r sgiliau rydych wedi'u caffael trwy eich dysgu. Rydych yn arddangos eich *dealltwriaeth* trwy ddehongli ystyr y ffeithiau a'r wybodaeth. Golyga hyn fod arnoch angen dethol a chynnwys yn eich gwaith y cysyniadau, y technegau, y modelau, a'r theorïau ac ati sy'n briodol i'r dasg/tasgau a osodwyd. Dylech allu esbonio'r theorïau, y cysyniadau, ac ati i ddangos eich dealltwriaeth. Hefyd bydd eich marc/gradd yn amodol ar y *graddau* rydych yn arddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth.

**Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:** *Dyfernir marciau yn yr adran hon am eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o sgiliau astudio perthnasol a'r buddion i chi fel myfyriwr wrth ddatblygu'r sgiliau hyn.*

## 8. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol

Dylech allu cyflwyno, gwerthuso a dehongli data ansoddol a meintiol, er mwyn datblygu llinynnau dadl a ffurfio barn gadarn yn unol â theorïau a chysyniadau sylfaenol eich pwnc/pynciau astudio. Dylech allu gwerthuso addasrwydd gwahanol ddulliau o ddatrys problemau sy'n gysylltiedig â'ch maes/meysydd astudio a/neu waith. Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o feddwl rhesymegol, dadansoddol. Er enghraifft, archwilio a thorri gwybodaeth i lawr yn elfennau, gwneud casgliadau, casglu, cymharu a chyferbynnu gwybodaeth. Ystyr hyn yw nid disgrifio 'beth' yn unig! Ond hefyd cyfiawnhau: Pam? Sut? Pryd? Pwy? Ble? Ar ba gost? Dylech roi cyfiawnhad dros eich dadleuon a'ch barn gan ddefnyddio tystiolaeth eich bod wedi myfyrio ar syniadau pobl eraill o fewn y maes pwnc a'ch bod yn gallu llunio barn a dadleuon cadarn gan ddefnyddio data a chysyniadau. Lle bo'n berthnasol, gellir cynnig atebion ac argymhellion amgen.

**Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:** *Dyfernir marciau yn yr adran hon am werthuso perthnasedd y sgiliau astudio i'r gweithle a'ch dadleuon ynghylch hyn.*

## 9. Sgiliau Ymarferol

Ar lefel 4, dylech allu cymhwyso'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol er mwyn eu gwerthuso a'u dehongli yng nghyd-destun eich maes astudio. Dylech allu dangos sut y mae'r cysyniadau a'r syniadau

sy'n gysylltiedig â'r pwnc yn berthnasol i sefyllfaoedd yn y byd go iawn a/neu mewn cyd-destun penodol. Sut maent yn gweithio'n ymarferol? Byddwch yn defnyddio modelau, dulliau, technegau a/neu theorïau, yn y cyd-destun hwnnw, i asesu sefyllfaoedd presennol, efallai er mwyn llunio cynlluniau neu atebion i ddatrys problemau, neu i greu arteffactau. Mae hyn yn debygol o gynnwys, er enghraifft, defnyddio arteffactau, enghreifftiau ac achosion o'r byd go iawn, cymhwyso model o fewn sefydliad a/neu feincnodi un theori neu sefydliad yn erbyn rhai eraill yn seiliedig ar feini prawf penodedig.

**Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:** *Dyfernir marciau yn yr adran hon am eich defnydd o dargedau CAMPUS wrth ddatblygu eich cynllun gweithredu a chymhwyso'r rhain i'ch llwybr gyrfa yn y dyfodol.*

## **10. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol**

Rhaid i'ch gwaith roi tystiolaeth o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer peth cyfrifoldeb personol. Mae hyn yn cynnwys dangos: eich bod yn gallu cyfleu canlyniadau'ch astudiaeth/gwaith yn gywir ac yn ddibynadwy, gyda dadleuon strwythuredig a chydlynol; eich bod yn gallu cychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, boed hynny'n unigol a/neu'n gydweithredol; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn. Dylai'r gwaith fod yn gydlynol ac wedi'i strwythuro'n dda o ran ei gyflwyniad a'i drefn.

**Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:** *Dyfernir marciau yn yr adran hon am gyflwyniad cyffredinol eich portffolio. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn mynd ati i brawf-ddarllen eich gwaith a'ch bod wedi defnyddio canllawiau'r Brifysgol ynghylch cyflwyniad ar bob adeg.*

*Fideo 3 munud o hyd gydag eitemau gweledol ategol*

- Cyflwyniad y gwaith: Dylid cyflwyno'r eitemau gweledol ategol a'r fideo mewn ffordd broffesiynol gan ddefnyddio'r Gymraeg
- Canolbwyntiwrch ar y tasgau a osodwyd yn yr aseiniad yn unig.
- Hyd: Fideo 3 munud a 600 o eiriau +/- 10% (tynnir 5 marc o'r marc terfynol os bydd mwy o eiriau na'r hyn a ganiateir).
- Defnyddiwch 'Cysill' i wirio'r sillafu a'r gramadeg cyn cyflwyno'r aseiniad.

### **Adnoddau Hanfodol:**

- Adnoddau a restrir ar Moodle
- Y Llawlyfr modwl a rhestr ddarllen
- Canllaw cyfeirnod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Y meini prawf asesu isod

# FFURFLEN ADBORTH MYFYRWYR

Noda'r adran hon y *graddau* y mae'r meini prawf asesu yn cael eu harddangos gennych chi, sydd yn ei dro'n pennu'ch marc. Dangosir y marciau sydd ar gael ar gyfer pob categori sgiliau. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

| Meini Prawf Asesu Generig                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Marciau sydd ar gael | Marciau a ddylfarn |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|--------------------|
| <b>1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | <b>10</b>            |                    |
| <i>Dyfernir marciau yn yr adran hon am eich ymgysylltiad ag ystod eang o lenyddiaeth briodol o erthyglau cyfnodolion, llyfrau a gwefannau dibynadwy sy'n ymwneud â datblygu sgiliau sylfaenol ar gyfer astudio a chyflogaeth yn y dyfodol. Cofiwch ddefnyddio cyfeirnod i'r ddull Harvard. Dylid cynnwys cyfeiriadau priodol yn y testun yn eich eitemau gweledol ategol, a dylech hefyd gyflwyno eich rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.</i> |                      |                    |
| <b>2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | <b>30</b>            |                    |
| <i>Dyfernir marciau yn yr adran hon am eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o sgiliau astudio perthnasol a'r buddion i chi fel myfyriwr wrth ddatblygu'r sgiliau hyn.</i>                                                                                                                                                                                                                                                                               |                      |                    |
| <b>3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | <b>10</b>            |                    |
| <i>Dyfernir marciau yn yr adran hon am werthuso perthnasedd y sgiliau astudio i'r gweithle a'ch dadleuon ynghylch hyn.</i>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                      |                    |
| <b>4. Sgiliau Cymhwyso Ymarferol</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | <b>30</b>            |                    |
| <i>Dyfernir marciau yn yr adran hon am eich defnydd o dargedau CAMPUS wrth ddatblygu eich cynllun gweithredu a chymhwyso'r rhain i'ch llwybr gyrfa yn y dyfodol.</i>                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                      |                    |
| <b>5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | <b>20</b>            |                    |
| <i>Dyfernir marciau yn yr adran hon am gyflwyniad cyffredinol eich portffolio. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn mynd ati i brawf-ddarllen eich gwaith a'ch bod wedi defnyddio canllawiau'r Brifysgol ynghylch cyflwyniad ar bob adeg.</i>                                                                                                                                                                                                         |                      |                    |

| Marc Asesiad (Mae marciau asesiadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r marciau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.) | Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (ticiwch os yw'n berthnasol) |  | % |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------|--|---|
|                                                                                                                                                                                               | Hyd at wythnos yn hwyr (uchafswm o 40%)             |  |   |
|                                                                                                                                                                                               | Dros wythnos yn hwyr (0%)                           |  |   |

## MEINI PRAWF ASESU GENERIG

### Lefel 4

Yn unol â'r *Framework for Higher Education Qualifications*, ar ddiwedd Lefel 4 disgwylir y bydd myfyrwyr wedi arddangos gwybodaeth am gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol pwnc, ynghyd â gallu i werthuso a dehongli'r rhain yng nghyd-destun y maes astudio hwnnw. Dylent allu cyflwyno, gwerthuso a dehongli data ansoddol a meintiol er mwyn datblygu llinynnau dadl a ffurfio barn gadarn yn unol â damcaniaethau a chysyniadau sylfaenol eu pwnc/pynciau astudio. Byddant wedi dysgu sut i werthuso dulliau gwahanol o ddatrys problemau, a byddant yn gallu cyfleu canlyniadau eu hastudiaeth/gwaith mewn modd cywir a dibynadwy, gyda dadleuon strwythuredig a chydlynol. Byddant yn gallu ymgymryd â hyfforddiant pellach a datblygu sgiliau newydd o fewn amgylchedd strwythuredig a rheoledig a bydd ganddynt y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol.

| Lefel 4                                                                                                           | METHU                                                                                                                                                                                                                                                   | METHU FFINIOL                                                                                                                                                                                                                                                    | BODDHAOL<br>(3ydd / Llwyddo)                                                                                                                                                                                                                                                | DA<br>(2.2 / Llwyddo)                                                                                                                                                                                                            | DA IAWN<br>(2.1 / Teilyngdod)                                                                                                                                                                                           | RHAGOROL<br>(1 <sup>af</sup> / Rhagoriaeth)                                                           | EITHRIADOL<br>(1 <sup>af</sup> / Rhagoriaeth)                                                                                       |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Categori                                                                                                          | 0-29%                                                                                                                                                                                                                                                   | 30-39%                                                                                                                                                                                                                                                           | 40-49%                                                                                                                                                                                                                                                                      | 50-59%                                                                                                                                                                                                                           | 60-69%                                                                                                                                                                                                                  | 70-84%                                                                                                | 85-100%                                                                                                                             |
| <b>Ymgysylltu â llenyddiaeth</b><br>(yn cynnwys darllen, cyfeirnod, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd) | Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnod mewn modd anghydlynol neu ar y cyfan maent yn absennol. | Ymgysylltu gwael â darllen hanfodol. Dim tystiolaeth o ddarllen ehangach. Yn dibynnu ar ffynonellau amhriodol, a/neu yn defnyddio ffynonellau'n ddiofal. Yn ddibynnol iawn ar wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. Defnydd anghyson a gwan o gyfeirnod. | Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig o ffynonellau perthnasol a chredadwy ar y cyfan ond â rhywfaint o ddibyniaeth ar wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnod i'n amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro. | Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau'n hytrach na ffynonellau eraill. Gall y cyfeirnod ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau. | Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Cyfeirnod graenus ar y cyfan, â fawr ddim/dim anghywirdebau neu anghysonderau. | Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy. Cymhwyso cyfeirnod i'n gyson gywir. | Ymgysylltu eithriadol ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy. Sgiliau cyfeirnod lefel uchel wedi'u cymhwyso'n gyson. |
| <b>Gwybodaeth a dealltwriaeth</b><br>(Gwybodaeth am gysyniadau ac                                                 | Bylchau mawr yn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o gysyniadau ac                                                                                                                                                                                          | Bylchau yn y wybodaeth am y cysyniadau a'r egwyddorion                                                                                                                                                                                                           | Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r cysyniadau a'r                                                                                                                                                                                                                    | Mae'r wybodaeth am y cysyniadau a'r egwyddorion                                                                                                                                                                                  | Gwybodaeth gymwys am y cysyniadau a'r egwyddorion                                                                                                                                                                       | Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o gysyniadau ac                                                    | Gwybodaeth a dealltwriaeth eithriadol a manwl o'r                                                                                   |

| Lefel 4                                                                                                                                                                                           | METHU                                                                                                                                                                                                                                                               | METHU FFINIOL                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | BODDHAOL<br>(3 <sup>ydd</sup> / Llwyddo)                                                                                                                                                                                                                                                                                   | DA<br>(2.2 / Llwyddo)                                                                                                                                                                                                            | DA IAWN<br>(2.1 / Teilyngdod)                                                                                                                                                                                              | RHAGOROL<br>(1 <sup>af</sup> / Rhagoriaeth)                                                                                                                                                                                                        | EITHRIADOL<br>(1 <sup>af</sup> / Rhagoriaeth)                                                                                                                                                                                                                          |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Categori                                                                                                                                                                                          | 0-29%                                                                                                                                                                                                                                                               | 30-39%                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | 40-49%                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | 50-59%                                                                                                                                                                                                                           | 60-69%                                                                                                                                                                                                                     | 70-84%                                                                                                                                                                                                                                             | 85-100%                                                                                                                                                                                                                                                                |
| egwyddorion gwaelodol sylfaenol pwnc.)                                                                                                                                                            | egwyddorion gwaelodol sylfaenol y deunydd pwnc. Yn cynnwys deunydd amherthnasol. Anghywirdebau sylweddol.                                                                                                                                                           | gwaelodol sylfaenol, gyda dealltwriaeth ddiffygiol neu arwynebol. Rhai anghywirdebau sylweddol a/neu ddeunydd amherthnasol.                                                                                                                                                                                                                             | egwyddorion gwaelodol sylfaenol yn y maes pwnc. Gall rhai elfennau fod ar goll.                                                                                                                                                                                                                                            | gwaelodol sylfaenol yn gywir gyda dealltwriaeth dda o'r maes astudio ond mae diffyg manylder a/neu ehangder.                                                                                                                     | gwaelodol sylfaenol. Arddengys ddealltwriaeth dda iawn.                                                                                                                                                                    | egwyddorion gwaelodol sylfaenol y pwnc.                                                                                                                                                                                                            | cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol                                                                                                                                                                                                                         |
| <b>Sgiliau gwybyddol a deallusol</b><br>(Gwerthuso cysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol pwnc a dehongli data ansoddol a meintiol er mwyn datblygu llinynnau dadl a ffurfio barn gadarn.) | Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim gwerthuso o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys. Fawr ddim neu ddim defnydd o dystiolaeth i gefnogi barn. | Gwaith disgrifiadol ar y cyfan, gyda gwerthuso arwynebol o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Dehongli data'n wan, datblygu dadleuon a barn yn ddiffygiol. Derbynnir gwybodaeth yn anfeirniadol, defnyddia ddatganiadau cyffredinol heb fawr o dystiolaeth a barn heb sail. Syniadau weithiau'n afresymegol ac yn gwrthddweud ei gilydd. | Ymgais cyfyngedig at werthuso'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol, gan dueddu tuag at ddisgrifio. Gall dehongli data ansoddol a meintiol ond â rhai gwallau. Peth tystiolaeth i gefnogi dadleuon cynyddol a barn ond gall y rhain fod heb eu datblygu'n ddigonol neu ag ychydig o anghysondeb / camddehongli. | Gwerthuso da o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Gall dehongli data ansoddol a meintiol, gyda mân wallau. Gallu cynyddol i ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi'r ddadl. Dadleuon dilys a barn resymegol ar y cyfan. | Gwerthuso graenus o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Gall dehongli data ansoddol a meintiol yn gywir. Gallu i ddyfeisio dadleuon gan ddefnyddio tystiolaeth i lunio barn sy'n briodol a dilys ar y cyfan. | Gwerthuso rhagorol o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Gall dehongli data ansoddol a meintiol yn gywir ac â pheth mewnwleidiad. Gallu rhagorol i ddyfeisio dadleuon gan ddefnyddio tystiolaeth a llunio barn sy'n briodol a dilys. | Gwerthuso eithriadol o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol yn seiliedig ar dystiolaeth. Dehongli data ansoddol a meintiol mewn modd rhagorol. Gallu eithriadol i ddyfeisio dadleuon gan ddefnyddio tystiolaeth a llunio barn sy'n hollol briodol a dilys. |
| <b>Sgiliau ymarferol</b><br>(Dulliau gwahanol o ddatrys                                                                                                                                           | Defnydd cyfyngedig, neu ddim defnydd o ddulliau                                                                                                                                                                                                                     | Cymhwyso dulliau sylfaenol a addysgwyd, deunyddiau,                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Ymwybyddiaeth ddigonol a chymhwyso dulliau sylfaenol,                                                                                                                                                                                                                                                                      | Cymhwyso dulliau sylfaenol, deunyddiau, offer a/neu                                                                                                                                                                              | Cymhwyso ystod o ddulliau sylfaenol, deunyddiau,                                                                                                                                                                           | Cymhwyso ystod o ddulliau sylfaenol a addysgwyd,                                                                                                                                                                                                   | Lefelau eithriadol o sgiliau cymhwyso a                                                                                                                                                                                                                                |

| Lefel 4                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | METHU                                                                                                                                                                                                                                                                                 | METHU FFINIOL                                                                                                                                                                                                                                                                                          | BODDHAOL<br>(3 <sup>ydd</sup> / Llwyddo)                                                                                                                                                                                                                                      | DA<br>(2.2 / Llwyddo)                                                                                                                                                                                                                                                                           | DA IAWN<br>(2.1 / Teilyngdod)                                                                                                                                                                                                                                                                          | RHAGOROL<br>(1 <sup>af</sup> / Rhagoriaeth)                                                                                                                                                                                                                                                          | EITHRIADOL<br>(1 <sup>af</sup> / Rhagoriaeth)                                                                                                                                                                                                                                               |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Categori                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | 0-29%                                                                                                                                                                                                                                                                                 | 30-39%                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | 40-49%                                                                                                                                                                                                                                                                        | 50-59%                                                                                                                                                                                                                                                                                          | 60-69%                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | 70-84%                                                                                                                                                                                                                                                                                               | 85-100%                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| problemau mewn cyd-destunau penodol).                                                                                                                                                                                                                                                                           | sylyfaenol a addysgwyd, deunyddiau, offer a/neu dechnegau. Fawr ddim neu ddim gwerthfawrogiad o gyd-destun y cymhwyso. Tystiolaeth wan iawn o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol.                                                                        | offer a/neu dechnegau mewn modd elfennol ond heb ystyriaeth na chymhwysedd. Gwerthfawrogiad diffygiol o gyd-destun y cymhwyso. Tystiolaeth wan o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol.                                                                                      | deunyddiau, offer a/neu dechnegau, mewn modd sy'n briodol ar y cyfan. Gwerthfawrogiad sylfaenol o gyd-destun y cymhwyso. Gall ddynodi problemau mewn cyd-destunau penodol a chynnig dulliau sylfaenol neu atebion eraill er gall fod gwallau.                                 | dechnegau mewn modd da a phriodol. Gwerthfawrogiad eglur o gyd-destun y cymhwyso. Tystiolaeth dda o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol a chynigia atebion sy'n briodol ar y cyfan.                                                                                 | offer a/neu dechnegau mewn modd da iawn. Ystyriaeth dda iawn o gyd-destun y cymhwyso. Tystiolaeth dda iawn o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol a chynigia atebion priodol.                                                                                               | deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd uwch. Mae cyd-destun y cymhwyso yn ystyriol ac yn graff. Tystiolaeth ragorol o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol a chynigia atebion priodol.                                                                               | defnyddio mewn cyd-destunau ymarferol penodol. Dynodi problemau mewn cyd-destunau penodol mewn modd rhagorol, a llunio atebion / dulliau gwahanol sy'n feddylgar ac yn hollol briodol.                                                                                                      |
| <b>Sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer proffesiynol</b><br>(Cyfleu canlyniadau eu hastudiaeth / gwaith mewn modd cywir a dibynadwy, gyda dadleuon strwythuredig a chydlynol; y rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol o fewn amgylchedd) | Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n wael, yn ddi-drefn, yn anghywir a/neu wedi'i fynegi'n ddrislyd. Defnydd gwan iawn o iaith a/neu arddull amhriodol iawn. Wedi methu gweithio'n effeithiol yn unigol neu'n rhan o grŵp. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth | Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno'n wael mewn modd di-gyswllt. Mae wedi'i strwythuro'n llac, ac ar brydiau'n anghydlynol, a gwybodaeth a syniadau wedi'u mynegi'n wael yn aml. Defnydd gwan o iaith a/neu arddull amhriodol. Ymagwedd ddiffygiol at waith unigol neu waith grŵp, gan fodloni rhwymedigaetha | Cyflwyniad a strwythur yn drefnus ar y cyfan, lle mynegir syniadau / cysyniadau perthnasol mewn modd rhesymol. Gall fod diffyg cydlynid a/neu gywirdeb mewn mannau yn y gwaith. Gall weithio fel rhan o grŵp, gan fodloni'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaetha u i bobl eraill ond | Mae'r gwaith yn gydlynol, trefnus a chywir ar y cyfan, mewn strwythur addas ac ar y cyfan mae wedi'i fynegi'n eglur. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da iawn at weithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer | Mae'r gwaith yn gywir, cydlynol, rhugl, wedi'i strwythuro'n dda ac yn drefnus. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da iawn at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau da iawn ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol, gyda | Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau rhagorol at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau rhagorol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol gydag | Mae'r gwaith yn gywir, yn eithriadol o gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n dda. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eithriadol at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau eithriadol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o |

| Lefel 4                     | METHU                                                 | METHU FFINIOL                                                                                                                            | BODDHAOL<br>(3 <sup>ydd</sup> / Llwyddo)                                                                                                                                                               | DA<br>(2.2 / Llwyddo)                                                              | DA IAWN<br>(2.1 / Teilyngdod)   | RHAGOROL<br>(1 <sup>af</sup> / Rhagoriaeth) | EITHRIADOL<br>(1 <sup>af</sup> / Rhagoriaeth)           |
|-----------------------------|-------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------|---------------------------------------------|---------------------------------------------------------|
| Categori                    | 0-29%                                                 | 30-39%                                                                                                                                   | 40-49%                                                                                                                                                                                                 | 50-59%                                                                             | 60-69%                          | 70-84%                                      | 85-100%                                                 |
| strwythuredig a rheoledig.) | sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol. | u rhannol i eraill yn unig. Tystiolaeth gyfyngedig o'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol. | efallai gyda chyfranogiad cyfyngedig mewn gweithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau sylfaenol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol, gyda rhai meysydd o fân wendid. | rhywfaint o gyfrifoldeb personol, gyda rhai meysydd o gryfder a rhai o fân wendid. | mân gwendid achlysurol yn unig. | awydd i ddatblygu ymhellach.                | gyfrifoldeb personol gydag awydd i ddatblygu ymhellach. |

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL HEFYD YN SAESNEG